
NewsLine
Medi 2014 Rhifyn 127
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
www.caerffili.gov.uk








# Helpwch ni i lunio gwasanaethau

**Mae trigolion ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu gofyn i helpu i lunio'r ffordd y mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol gan ei fod yn wynebu toriadau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd i ddod.**

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng yn sylweddol, ac felly o ganlyniad i hyn, mae Caerffili fel awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru o dan bwysau ariannol difrifol.

Hyd yn hyn mae'r cyngor wedi bod yn gweithio ar ostyngiad yn y cyllid o 1.34% ar gyfer pob un o'r 2 flynedd ariannol nesaf a gofyniad arbedion o £13.4 miliwn. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi awgrymu bod y sefyllfa yn debygol o fod yn llawer gwaeth, ac wedi gofyn i awdurdodau lleol i ddechrau cynllunio ar gyfer gostyngiadau o hyd at 4.5%.

Y sefyllfa waethaf fyddai i hyn arwain at ofyniad arbedion o **£30.1 miliwn** dros y blynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17.

Yn 2013, gofynnwyd i drigolion os oeddent yn deall y rhesymau pam roedd angen i Gaerffili wneud toriadau sylweddol ac a oeddent yn cytuno bod angen i'r cyngor i nodi'r gwasanaethau blaenoriaeth ac adolygu gwasanaethau llai hanfodol eraill. Roedd **dros 90%** o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno.

Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau statudol allweddol fel Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Safonau Masnach, Amddiffyn Plant, Cynllunio, Tai, Cynnal y Priffyrdd a Rheoli Gwastraff ayyb, ond mae llawer o wasanaethau dewisol eraill y mae'r cyngor yn dewis i'w darparu, ac yn mynd cam ymhellach i'w dyletswydd statudol ond nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i wneud hynny.



Bydd y gwasanaethau statudol yn destun targedau arbedion effeithlonrwydd, ond bydd ffocws yr ymgynghoriad ar **wasanaethau dewisol** a byddwn yn gofyn i drigolion i flaenoriaethu'r rhai y maent yn teimlo sydd fwyaf pwysig i'r gymuned. Unwaith i'r gwasanaethau cael eu torri, ni fydd fawr ddim o gyfle i adfer nhw unwaith eto yn y dyfodol agos.

Cymerwch amser i gwblhau'r arolwg ar y tudalennau canol er mwyn i ni ddefnyddio eich sylwadau i helpu i lunio eich gwasanaethau a llywio ein penderfyniadau cyllideb dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg tan **30ain Medi**.

# Pryd y mae ceudwll ddim yn geudwll?




### Y broblem â cheudyllau...

Pob blwyddyn mae'r cyngor yn llenwi miloedd o geudyllau ar heolydd a throedffyrdd ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Achoswyd ceudyllau, craciau a diffygion eraill i arwyneb ffyrdd gan nifer o ffactorau gan gynnwys amodau tywydd, cyfaint traffig cyflwr yr arwyneb ac oed strwythur yr heol.

Mae yna rhai pobl yn gofyn pam y mae'r cyngor yn llenwi rhai ceudyllau, ac nid yn trwsio eraill. Yr ateb syml yw bod gennym bolisi mewn lle sy'n diffinio'n union beth yw ceudwll yn nhermau dyfnder a maint. Os nad yw'n cwrdd â'r meini prawf hyn, nid yw'n cael ei lenwi.

### Pa mor fawr y mae'n rhaid i geudwll fod?

Tyllau sy'n ddyfnach na 40mm ar heolydd 'A' a 'B' sy'n cael eu hystyried fel ceudyllau lle ar y ffyrdd cysylltiol a ffyrdd mynediad lleol y diffiniad yw 50mm.

Ar brif lwybrau cerdded a throedffyrdd y diffiniad yw 20mm, gyda llwybrau beicio a throedffyrdd lleol yn 40mm.

### Oes modd llenwi pob un?

Gall breswylwyr gwerthfawrogi fod logisteg a chost llenwi holl ddiffygion bach ar arwyneb y ffyrdd yn syfrdanol, felly mae'r cyngor yn asesu bob achos er mwyn penderfynu os mai ceudwll yw'r twll ac os oes angen atgyweiriad.

Yn ogystal â'r dull adweithiol hwn, mae yna hefyd amserlen cynnal a chadw'r dyfodol ar waith sy'n cynnwys rhaglen o waith atgyweirio arfaethedig mewn lleoliadau a bennwyd ymlaen llaw ar draws yr ardal.

### Clytio'r broblem

Mae 'Clytio' - neu lenwi ceudyllau unigol - yn cael ei ddefnyddio er mwyn estyn bywyd y ffordd ac yn osgoi'r angen ar gyfer rhagor o weithfeydd arwynebu drud. Mae atgyweirio craciau a thyllau bach yn yr arwyneb yn hanfodol er mwyn cynnal cyfanrwydd strwythur y ffyrdd yn gyffredinol. Mae clytio hefyd yn helpu i sicrhau bod yr arwyneb yn ffurfio sêl yn erbyn y treiddiad dŵr a allai niweidio sylfaen ffordd, ac felly'n ymestyn bywyd yr heol.



### Pwy sy'n gwneud beth?

Byddai atgyweiriad arferol yn dechrau gydag Arolygydd Priffyrdd yn marcio'r nam gyda phaent melyn cyn cyflwyno cais ar gyfer gwaith sydd i'w wneud.

Byddai criw atgyweirio priffyrdd wedyn yn ymweld â'r safle, paratoi arwyneb y ffordd ac yna llenwi'r twll â deunydd asffalt hyd at 85mm o drwch. Yn gyffredinol bydd y gwaith yn cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o ymweliad cychwynnol yr Arolygydd Priffyrdd ac yn ei wirio yn ystod eu harolygiad nesaf.

Mae yna adegau pan fydd atgyweiriadau dros dro yn cael eu gwneud i gadw arwyneb y ffordd yn ddiogel cyn i drwsio parhaol gael ei wneud yn ddiweddarach.

### Faint y mae'r cyngor yn ei wario?

Mae gan y cyngor cyllideb cynnal a chadw blynyddol o £1.1 miliwn dros rwydwaith priffyrdd o 1,200 cilomedr.

Mae dros 20,000 o geudyllau yn cael eu hatgyweirio pob blwyddyn er mwyn cyfyngu difrod i gerbydau a helpu i wneud ein rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel ac yn addas at y diben.

**Am wybodaeth bellach, ewch i www.caerffili.gov.uk**




# Mynd i'r afael â throsedd casineb

**Mae asiantaethau partner wedi bod yn ymuno gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throsedd casineb ym mwrdeistref sirol Caerffili.**

Mae trosedd neu ddigwyddiad casineb yn drosedd yn erbyn person neu eiddo oherwydd eu bod yn cael eu gweld yn wahanol mewn rhyw ffordd; hil, crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu ryw.

Er bod lefelau o drosedd casineb ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gymharol isel, mae nifer o sefydliadau wedi ymuno gyda'i gilydd i fynd i'r afael â digwyddiadau neu droseddau ar ei ben ei hun.

Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn cynnwys Heddlu Gwent, Gwasanaeth Erlyn y Goron, colegau lleol a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc fel rhan o Fforwm Cydlyniant Cymunedol aml-asiantaeth a Grŵp Trosedd Casineb Caerffili penodol i godi ymwybyddiaeth ac annog dioddefwyr i adrodd am ddigwyddiadau trosedd casineb yn yr ardal.

Fel rhan o'r ymdrechion hyn, mae'r cyngor wedi lansio cyfres o dudalennau gwe gyda gwybodaeth ar sut y gall trigolion adrodd am droseddau a digwyddiadau casineb i bartneriaid.

Mae'r cyngor hefyd wedi darparu cyrsiau a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i staff, ysgolion, llywodraethwyr ac ystod o bartneriaid er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o droseddau casineb. Mewn ysgolion, mae adrodd am ddigwyddiadau bwlio sydd ag elfen wahaniaethol wedi bod yn orfodol ers mis Medi 2012.


Cysylltwch â Chymorth i Ddioddefwyr ar **08456 121 900** i adrodd am ddigwyddiad o drosedd casineb yn anhysbys/cyfrinachol neu i gael mynediad at gymorth. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar **www.reporthate.victimsupport.org.uk**

Fel arall, ewch i **www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb** am fwy o wybodaeth.

Mewn argyfwng, dylech ffonio'r Heddlu ar **999** neu linell di-argyfwng yr Heddlu sef **101**.



# Adnoddau newydd i bobl â dementia




**Gall Cartrefi Preswyl a Llyfrgelloedd ym mwrdeistref sirol Caerffili nawr gynnig cyfres o lyfrau arbennig i bobl sy'n byw gyda dementia, diolch i Dîm Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor.**

Enw'r llyfrau yw "Pictures to Share" ac maent wedi dylunio'n arbennig ar gyfer pobl â dementia a'u gofalyddion ac yn darparu dull cyfathrebu mewn modd dymunol ac ystyrlon. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu'r llyfrau i Lyfrgelloedd, y Gymdeithas Alzheimer, Age Cymru Gwent a Chartrefi Preswyl ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi prynu chwe Ystafell Atgofio symudol. Gall y cabanau hyn helpu i greu amgylchedd cyfarwydd i bobl sydd â dementia sy'n byw mewn cartrefi preswyl.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Woodyatt "Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu 'Cymunedau Cyfeillgar i Oed', rydym ni yn cydnabod bod nifer o'n preswylwyr yn y gymuned yn gofalu am bobl sydd â dementia ac roeddem yn dymuno iddynt gael mynediad at y llyfrau atyniadol hyn. Mae hefyd yn bwysig cynnig gofal mewn amgylchedd cyfarwydd i bobl sydd â dementia felly rydym wedi buddsoddi yn yr Ystafelloedd Atgofio symudol er mwyn rhoi'r cyfle hwn iddynt os nad ydynt bellach yn byw yn eu cartrefi eu hun."

Bydd y cabanau Ystafell Atgofio a'r llyfrau ar gael mewn nifer o gartrefi Gofal Preswyl ar draws y fwrdeistref sirol.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gweithred Bositif 50+ ar 01443 864681**

# Gwelliannau i gasgliadau gwastraff



**Gallai rhai preswylwyr weld newidiadau i'w casgliadau gwastraff gan fod y cyngor yn trawsnewid y ffordd y mae'n casglu gwastraff o gartrefi ledled y fwrdeistref sirol.**

Y mis hwn (o'r 15fed Medi) bydd y cyngor yn rhedeg meddalwedd cyfrifiadurol optimeiddio newydd WMDesign a fydd yn gwneud y llwybrau a ddefnyddir gan loriau casglu gwastraff yn fwy effeithlon, cost effeithiol ac yn ecogyfeillgar.

O ganlyniad i'r llwybrau newydd gall rhai preswylwyr weld newidiadau i'r dyddiad y bydd eu gwastraff ailgylchu, sbwriel, bwyd a garddio yn cael ei gasglu. Dros yr wythnosau diwethaf, mae swyddogion o dîm Rheoli Gwastraff y cyngor wedi bod yn postio taflenni i'r holl breswylwyr er mwyn eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'w dyddiau casglu.


Dywedodd y Cynghorydd David Poole: "Mae gan y meddalwedd newydd hwn y gallu i ail-weithio ein llwybrau casgliadau gwastraff a gwella effeithlonrwydd tra hefyd yn torri costau tanwydd ac allyriadau.

"I leihau amhariad, mae taflenni gwybodaeth wedi cael eu postio i bob eiddo. Tra na fydd pob preswylydd yn gweld newid i'w diwrnod casglu gall fod newid i'w amser gasglu, felly sicrhewch fod pob cynhwysydd yn cael eu gosod er mwyn eu casglu erbyn 6am.

"Mae preswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili wedi chwarae rôl arweiniol mewn sicrhau bod gennym ni fel cyngor un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru, a hoffwn ddiolch i bob un o'n preswylwyr am eu hamynedd tra bod y newidiadau newydd hyn yn dod i rym."

**Am ragor o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 866533.**

# Her y Gymanwlad



**Cymerodd Anturiaethau Caerffili ran mewn her arbennig iawn i ddathlu Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yr haf hwn.**

Hwyliodd Tîm Addysg Awyr Agored y cyngor, ynghyd â 10 o bobl ifanc sydd yn cwblhau eu Gwobr Dug Caeredin ar hyn o bryd, tuag ar yr Alban ar Her Cymru, cwch hwyliau 72 troedfedd sy'n perthyn i elusen sydd yn rhoi profiad hwylio i bobl ifanc.

Enillodd y tîm ar Her Cymru'r Ras Gychod 'Smallships' ar ddechrau'r Gemau ac felly Her Cymru oedd y cwch arweiniol wrth i 250 o gychod gymryd rhan yn Llynges Fach Gemau'r Gymanwlad, yn hwylio ar hyd yr Afon Clyde i ddathlu Gemau'r Gymanwlad yn dod i Glasgow.

Anturiaethau Caerffili yw Gwasanaeth Addysg Awyr Agored y cyngor. Maent yn darparu rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer ysgolion a hefyd yn darparu ar gyfer oedolion, arweinwyr a theuluoedd.

**Am ragor o wybodaeth ar sut i gymryd rhan gydag Anturiaethau Caerffili, ffoniwch 01495 221058 neu ebostiwch: keepra@caerffili.gov.uk**

# Amcanion Gwella

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi amlinellu ei chwe blaenoriaeth allweddol i'w gweithredu yn ystod 2014/15.**

Mae amcanion gwella'r cyngor yn ategu blaenoriaethau ehangach yr awdurdod. Mae'r chwe amcan gwella ar gyfer 2014/15 yn canolbwyntio ar welliannau penodol i wasanaethau gan gynnwys cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gwella cyfleoedd am swyddi drwy'r cynllun Pasbort a datblygu Gwasanaeth Ieuenctid effeithiol.

Mae meysydd blaenoriaeth eraill yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon, cymunedol a hamdden, buddsoddi mewn tai cyngor ac atal digartrefedd.

**Am fanylion llawn ewch i www.caerffili.gov.uk**

# Canolfan symudol ar y ffordd!

**Mae canolfan gwasanaethau cwsmeriaid symudol newydd y cyngor, a fydd yn rhoi mynediad at wasanaethau cyngor haws o lawer i filoedd o drigolion bwrdeistref sirol Caerffili, ar y ffordd.**

Mae'r cerbyd yn ymweld â nifer o drefi a phentrefi mwy gwledig y fwrdeistref sirol yn wythnosol, ac yn cynnig ystod eang o wasanaethau cyngor gan gynnwys:

- **Talu treth y cyngor / rhent cyngor**
- **Ymholiadau treth y cyngor**
- **Gofyn am atgyweiriad tai cyngor**
- **Gwneud cais am docyn teithio pobl hŷn**
- **Cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau'r cyngor**
- **Chwilio am swyddi gwag cyngor presennol**
- **Cyflwyno ceisiadau megis ynghylch casgliadau gwastraff swmpus, i roi gwybod am dwll yn y ffordd neu oleuadau stryd sydd wedi torri a.y.b.**




**Mae'r cerbyd yn ymweld â'r trefi a'r pentrefi canlynol yn wythnosol:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth** | **DERI** Canolfan Gymunedol | **09.30 - 11.00** | **RHYMNI** Gorsaf Dân | **14:00 - 15.30** |
| **Dydd Mercher** | **NELSON** Nesaf at yr orsaf fysiau | **09.15 - 10.45** | **Trinant** Sgwâr Teras Trinant | **14.00 - 15.30** |
| **Dydd Iau** | **YNYS-DDU** Maes parcio ar y Stryd Fawr | **09.30 - 11.00** | **TREDEGAR NEWYDD** Ffordd y Rhosyn Gwyn | **14.30 - 16.00** |
| **Dydd Gwener** | **TŶ-SIGN** Maes Parcio ar Ffordd y Llwyfen | **09.45 - 11.15** | **ABERTRIDWR** Cyferbyn â'r CCGI | **14.00 - 15.30** |

**Bydd ymweliadau wythnosol i Fochriw, Gelligaer, Cefn-y-pant a Bedwas hefyd yn cael eu hychwanegu i'r amserlen dros yr wythnosau nesaf.**

**Mae gwybodaeth bellach ar gael o www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio 01443 864 143**

## Peidiwch â cholli eich pleidlais




**Dros yr haf, bydd holl drigolion bwrdeistref sirol Caerffili wedi derbyn llythyr drwy'r post yn dweud wrthynt am y newid mwyaf i'r system gofrestru etholiadol mewn bron i 100 mlynedd.**

Eglurodd y llythyr bod system newydd, mwy diogel, o Gofrestru Etholiadol Unigol wedi cael ei gyflwyno i gymryd lle'r hen drefn Fictoraidd lle byddai'r 'penteulu' yn cofrestru pawb sy'n byw mewn eiddo. Nawr mae pob unigolyn yn gyfrifol am gofrestru eu hunain.

Symudodd y rhan fwyaf o drigolion yn awtomatig i'r gofrestr etholiadol newydd neu darparwyd gwybodaeth bellach iddynt i'w galluogi i symud. Fodd bynnag, hysbyswyd rhai bod angen iddynt weithredu ond nid ydynt wedi gwneud hynny eto.

Gall trigolion sydd ddim wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol eto golli eu hawl i bleidleisio yn etholiad seneddol y flwyddyn nesaf ac ni fydd trigolion sydd fel arfer yn pleidleisio drwy'r post, neu'n penodi rhywun arall i bleidleisio drostynt yn gallu gwneud hynny.

**Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01443 864203 ewch i www.gov.uk/yourvotematters neu e-bostiwch: etholiadau@caerffili.gov.uk**

## Statws y Rhuban Gwyn

**Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi derbyn y wobr Statws y Rhuban Gwyn yn ddiweddar am eu hymrwymiad i helpu rhoi stop i drais yn erbyn menywod.**

Mae Ymgyrch y Rhuban Gwyn wedi bod yn rhedeg yn y DU ers 2004. Fe'i sefydlwyd gan ddynion a oedd yn dymuno gwrthwynebu a gwneud addewid personol gweladwy byth i gyflawni, goddef na chadw'n dawel am drais yn erbyn menywod.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Woodyatt, "Rydym yn falch i gefnogi ymgyrch y Rhuban Gwyn sydd yma ym mwrdeistref sirol Caerffili. Gall trais ddomestig effeithio'r teulu a chymuned gyfan - mae'n hanfodol ein bod yn codi ymwybyddiaeth, a bod bwrdeistref sirol Caerffili yn cael ei weld fel man lle nad yw trais yn erbyn menywod - neu unrhyw un o ran hynny, yn dderbyniol, na'i chaniatáu."

Ychwanegodd y Cynghorydd Dave Poole, "Rwy'n annog yn gryf i unrhyw un sydd naill ai yn dioddef o drais yn y cartref eu hunain, neu sy'n adnabod rhywun sydd yn dioddef, i ddod ymlaen i un o'r niferoedd o wasanaethau sydd ar gael a gofyn am gymorth. Ni ddylai unrhyw un orfod byw mewn ofn."

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig sydd ar gael ym mwrdeistref sirol Caerffili o **www.caerffili.gov.uk/bscsaffach** neu drwy ffonio **01443 819 317**. Mewn argyfwng, ffoniwch **999** bob tro.

## Dweud eich dweud

**Yn rhifyn mis Mehefin o Newsline, dywedwyd wrth breswylwyr sut y mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol er mwyn ailwampio a symleiddio'r ffordd y mae pobl yn ceisio am dai cymdeithasol ym mwrdeistref sirol Caerffili.**

Mae'r gwaith hwn wedi parhau dros yr haf, sy'n cynnwys partneriaid yn gweithio ar ddatblygu cofrestr tai cyffredin a chynhyrchu drafft o bolisi dyrannu cyffredin. Disgwylir y bydd y gofrestr a'r polisi newydd yn cael eu cyflwyno erbyn haf 2015.

Mae'r cyngor a'i bartneriaid bellach yn ymgynghori â phobl a sefydliadau lleol ar y fersiwn drafft o'r polisi. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, sy'n dod i ben ganol mis Tachwedd, byddai'r cyngor yn hoffi siarad â chymaint o bobl ag sy'n bosib am y newidiadau.

Pan fydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben, bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'r polisi yn cael ei derfynu. Bydd y cyngor wedyn yn cadarnhau'r polisi a gofyn i bob cymdeithas tai i'w lofnodi.

Gellir gweld yr ymgynghoriad ar **www.caerffili.gov.uk**

I gael copi caled o'r ymgynghoriad neu am ragor o wybodaeth, ffoniwch **01495 235 216** neu e-bostiwch **taisectorpreifat@caerffili.gov.uk**

# Cofio'r Rhyfel Mawr

**Lansiwyd prif arddangosfa newydd i farcio canmlwyddiant dechrau'r rhyfel yn ddiweddar yn amgueddfa'r Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd.**



Mae'r arddangos 'Ein Dyletswydd i Ddwyn Arfau'– y Rhyfel Byd Cyntaf a bwrdeistref sirol Caerffili, sydd yn archwilio sut wnaeth y rhyfel effeithio ar ddynion, menywod a phlant ar draws bwrdeistref sirol Caerffili. O'r Ffrynt Gorllewinol i'r Ffrynt Gartref, mae'r arddangosfa yn archwilio profiadau lleol Rhyfel trwy wrthrychau, delweddau, ffilm a sŵn sydd wedi curadu'n ofalus.

Mae gan ymwelwyr i'r Tŷ Weindio gyfle i ddarganfod profiadau pobl o fwrdeistref sirol Caerffili yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a sut wnaeth y rhyfel effeithio ar eu bywydau; o'r peilot ifanc o Gaerffili yn y Corfflu Hedfan Frenhinol, i'r Carcharor Rhyfel a wnaeth ddianc o Dredegar Newydd; o'r fam o Drelyn gyda dau fab a gafwyd eu lladd yn 19 oed, i'r gwrthwynebwr cydwybodol Morgan Jones; ac o löwr o Goed Duon a wnaeth ymuno â'r gatrawd twnelu, i'r ferch ifanc o Dirphil yn ysgrifennu at ei thad yn gofyn iddo ddod adref o'r rhyfel.

Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys darn o ffilm wreiddiol o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal â rhan o'r ffosydd wedi'i ail-greu ac atgofion o Frwydr y Somme gan filwr lleol - yn ei eiriau ei hun - o recordiad a wnaed yn y 1970au. Mae'r Tŷ Weindio ar agor Dydd Mawrth i Ddydd Sul - 10am tan 5pm, ac ar agor hefyd ar Wyliau Banc Dydd Llun. Mynediad **AM DDIM**. Am wybodaeth bellach, ewch i **www.tyweindio.co.uk** neu ffoniwch **01443 822 666**.




## Digwyddiadau i ddod:

**15fed o Fedi** Bydd Llyfrgell Nelson yn cynnal sgwrs ar y Rhyfel Byd Cyntaf i goffau'r canmlwyddiant ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dewch ynghyd 2.30pm - 4.00pm.

**3ydd o Hydref** Bydd Llyfrgell Bargod yn cynnal sgwrs ar y Rhyfel Byd Cyntaf i goffau'r canmlwyddiant ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dewch ynghyd 3.00pm - 4.30pm.

**11eg o Dachwedd** I farcio Dydd Cadoediad bydd Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn ac Ysgol Gynradd Treffilip yn gorymdeithio trwy Dredegar Newydd gyda dwy faner fawr a wnaed yn gyfan gwbl o babïau wedi ei argraffu yn unigol yr oedd 300 o blant o'r ddwy ysgol wedi cymryd rhan ynddynt.

**12fed a'r 13eg o Dachwedd** bydd Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn cynnal drama a gynhyrchwyd gan Ysgol Lewis Pengam a'r dramodydd proffesiynol Larry Allen. Mae grant o'r Gronfa Dreftadaeth y Loteri wedi caniatáu i ddisgyblion weithio gyda llythyron a anfonwyd i'r ysgol oddi wrth ddisgyblion a oedd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a fydd canolbwynt y ddrama. Bydd y ddrama yn canolbwyntio ar y gwrthwynebwr cydwybodol Morgan Jones, cyn ddisgybl arall o'r ysgol. Am fwy o wybodaeth, ewch i **www.blackwoodminersinstitute.co.uk.**

**19eg o Dachwedd** Bydd Llyfrgell Coed Duon yn cynnal sgwrs ar y Rhyfel Byd Cyntaf i goffau'r canmlwyddiant ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dewch ynghyd 2.00pm - 3.30pm.

## Balchder Bro

**Mae ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion yn cael eu hannog i ddangos bod ganddynt falchder yn eu hamgylchedd drwy gymryd rhan yn y gwobrau Balchder Bro 2014.**

Mae Balchder Bro yn cael ei drefnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydnabod yr ymdrech, arloesedd ac ymrwymiad y rhai sy'n helpu i wneud eu hardal yn lle glanach, gwyrddach a mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld. Bydd y gwobrau yn cynnwys 11 categori gwahanol, yn amrywio o wobrau Ardal Daclusaf a Busnes Amgylcheddol Orau i Ailgylchu mewn Ysgolion a Phencampwr/wraig Amgylcheddol. Bydd enillwyr ac eilyddion bob categori yn derbyn gwobr ariannol, a byddent yn gymwys ar gyfer y wobr fawreddog Prif Enillydd.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14eg Hydref 2014.**

Mae SEDA, cwmni pecynnu rhyngwladol mawr gyda lleoliad ger Coed Duon, wedi cytuno i fod yn noddwr allweddol unwaith eto ar gyfer y Gwobrau Balchder Bro eleni.



**Gallwch weld rhestr lawn o gategorïau a ffurflenni enwebu ar**
**www.caerffili.gov.uk/balchderbro**
Am ragor o wybodaeth, ffoniwch **01443 873 758**

## Newidiadau i ganolfannau ailgylchu

**O Ddydd Mercher 1af Hydref, bydd preswylwyr sy'n defnyddio faniau a threlars i gludo gwastraff o weithfeydd adeiladu neu ddymchwel i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (safleoedd amwynder dinesig) yn amodol i daliadau newydd.**

### Mae'r taliadau fel a ganlyn:

- **£35 ar gyfer fan sy'n deillio o gar**
  (faniau megis y math 'Escort', faniau 'Transit Connect' a threlars llai nag 1.8m o hyd).
- **£70 ar gyfer faniau mwy**
  (Hyd at faint Ford Transit).
- **Faniau mwy na maint Ford Transit**
  (Ni fydd faniau Luton, loriau codi a threlars sy'n fwy nag 1.8 metr o hyd yn gallu cael mynediad at y safleoedd hyn bellach).



Bydd faniau (maint 'transit' a llai) a threlars bach (llai nag 1.8m o hyd) yn cario gwastraff y cartref yn gallu gadael gwastraff am ddim, ond rhaid i drigolion gasglu trwydded tipio oddi wrth un o swyddfeydd arian neu Gwsmer yn Gyntaf y cyngor o flaen llaw.

Er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn cael eu defnyddio gan drigolion bwrdeistref sirol Caerffili yn unig, bydd angen i breswylwyr brofi eu preswylfa wrth feddiannu trwydded ynghyd â dogfen cofrestru'r cerbyd. Bydd y drwydded yn ddefnydd untro a rhaid ei gyflwyno yn y safle. Bydd gan drigolion hawl i gael hyd at chwe thrwydded fan ac am ddim o fewn cyfnod o 12 mis. Ni fydd unrhyw wastraff masnachol / masnach yn cael ei ganiatáu ar unrhyw un o'r safleoedd.

**Ni fydd preswylwyr sy'n defnyddio ceir i ddod a gwastraff i'r safleoedd hyn yn cael eu heffeithio gan y newidiadau a gallent barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn rhad ac am ddim.**

**Am wybodaeth bellach ar ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 866 533**

# 10 mlynedd o Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol!

**Mae tîm Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol y cyngor yn dathlu eu degfed pen-blwydd y mis hwn.**

Lansiwyd Gwasanaeth Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol ym mis Medi 2004 i ddarparu presenoldeb gwisg unffurf yng nghymunedau bwrdeistref sirol Caerffili, ac i ostwng lefelau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd o ganlyniad i hyn.

Mae'r Wardeiniaid hefyd yn darparu sicrwydd a chymorth er mwyn helpu creu amgylchedd byw diogel, mwy dymunol o fewn ein cymunedau. Deg mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'r gwasanaeth Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol y cyngor yn parhau i fynd o gryfder i gryfder- cafodd y tîm eu gwobrwyo gyda Gwobr Lord Ferrers fawreddog gan y Swyddfa Gartref yn gynharach eleni am eu gwaith yng nghymunedau bwrdeistref sirol Caerffili.



*Y Gwir Anrhydeddus Damian Green AS, a gyflwynodd Gwobr Lord Ferrers i'r tîm.*

Dywedodd y **Cyng. David Poole** said, "Mae ein Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yn aml ar y blaen wrth helpu mynd i'r afael â materion lleol sydd o bryder i drigolion, ac yn bresenoldeb cysurol dros ben mewn cymunedau ar draws bwrdeistref sirol Caerffili. Rwy'n llawn canmoliaeth am y gwaith gwych maent yn ei wneud."

Safer Caerphilly County Borough
Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach

### Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r tîm o 10 Warden Diogelwch Cymunedol wedi:



- Gwneud **23,364** o batrolau a dargedwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon amgylcheddol.
- Treulio **69,764** o oriau ar batrôl gweledig uchel, gan helpu i dawelu meddwl trigolion.
- Gwneud **394** o gyfeiriadau i mewn i'r broses pedwar ergyd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Rhoi **8,790** o eiriau o gyngor i bobl sydd wedi cyflawni troseddau bach.
- Mynychu **1,056** o gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT), sy'n helpu mynd i'r afael â phryderon cymunedol a godwyd yn y cyfarfodydd hyn.
- Cysylltu gydag aelodau ward **1,694** gwaith am faterion lleol yn eu wardiau.
- Mynychu a helpu gorfodi caeadau heolydd mewn **72** o wasanaethau a gorymdeithiau Dydd y Cofio.
- Cynghori **4,590** o yrwyr eu bod wedi gadael eitemau wedi'u harddangos yn eu cerbydau, ac wedi cynnig cyngor ar atal trosedd car.
- Cymryd **4,722** o eitemau o alcohol oddi wrth yfwyr dan oed a'r rheini sy'n yfed mewn ardaloedd sy'n dod o dan Orchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig (DPPO).

**Am wybodaeth bellach ar Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol, ewch i your.caerphilly.gov.uk/saferccb**

# Cysylltu cymunedau

**Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi arwahanu o'u cymuned neu eu teulu, neu rywun sydd yn ymddangos yn unig?**

Mae gan y cyngor nifer o 'Gysylltwyr Cymunedol' yn gweithio trwy'r fwrdeistref sirol sy'n ceisio ymdrechu i ail-gysylltu pobl yn ôl i'w cymuned. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn gweithio gyda llawer o grwpiau a sefydliadau o fewn cymunedau i helpu pobl i ddarganfod gweithgareddau a grwpiau a gall wella lles eu hun.

### Bwriad Cysylltwyr Cymunedol yw i:

- **Helpu pobl i fod mor annibynnol ag sy'n bosib**
- **Helpu pobl i wella eu synnwyr lles**
- **Helpu pobl i deimlo'n llai unig**
- **Helpu pobl i deimlo fel rhan o gymuned**




Gall Cysylltwyr Cymunedol hefyd weithio o fewn cymunedau er mwyn cynnig cyngor ac arweiniad i bobl leol am sut gallent ddefnyddio eu cryfderau, sgiliau a phrofiadau i helpu eraill.

**Er mwyn siarad â rhywun am y cynllun Cysylltwyr Cymunedol, ffoniwch 0808 100 2500 neu e-bostiwch: timdyletswyddgwybodaeth@caerffili.gov.uk**

# Un Curiad!

**Bydd gwaith amhrisiadwy gwirfoddolwyr ar draws y fwrdeistref sirol yn cael ei ddathlu mewn digwyddiad arbennig y mis nesaf.**



Bydd cynrychiolwyr o tua 80 o fudiadau gwirfoddol sy'n gwasanaethu'r gymuned yn dod at ei gilydd ac yn arddangos eu gwaith yn y digwyddiad Un Curiad blynyddol ar ddydd Sadwrn 25ain Hydref ym mhencadlys y cyngor yn Nhŷ Penallta rhwng 11am - 1pm.

Mae'r digwyddiad wedi ei drefnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG).

Dywedodd y Maer, y Cynghorydd David Carter, "Hwn yw un o'n digwyddiadau mwyaf sefydledig, ac mae'n darparu cyfle gwych i ddathlu gwaith amhrisiadwy'r sefydliadau gwirfoddol ar draws y fwrdeistref sirol sy'n gwasanaethu ein cymunedau yn ddiflino."
Am wybodaeth bellach, neu i sefydliadau gwirfoddol sydd yn dymuno arddangos eu gwaith yn Un Curiad, ffoniwch **01443 864312**.

ONE BEAT

# Croeso Cynnes Caerffili

**Gyda llai na blwyddyn tan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015, ar benwythnos y 4ydd o Hydref bydd yr ŵyl gyhoeddi yn cael ei chynnal yng Nghaerffili.**

Mae'r ŵyl gyhoeddi yn gyfle i bobl lleol ddod at ei gilydd i groesawu'r Eisteddfod i'r ardal, ac fe ddisgwylir cannoedd o blant, pobl ifanc, athrawon, rhieni a chefnogwyr i ymuno yn y dathliadau.

Bydd yr Eisteddfod yn dod i Gaerffili rhwng y 25 a'r 30 o Fai 2015. Mae'r Eisteddfod yn un o brif wyliau ieuenctid Cymru sy'n cynnig cyfleodd i dros 45,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru gystadlu mewn canu dawnsio, llefaru a llawer mwy. Cynhelir yr ŵyl 6 diwrnod yn Llancaiach Fawr ac ynghyd â'r cystadlaethau amrywiol bydd gweithgareddau, stondinau, llwyfannau awyr agored a ffair i bawb o bob oedran ddod i fwynhau'r Eisteddfod.

Bydd yr ŵyl gyhoeddi ar y 4ydd o Hydref yn gyfle i gael blas o hwyl a bwrlwm yr Eisteddfod gyda chroeso cynnes i unrhyw un ymuno mewn gorymdaith arbennig sy'n cychwyn am 1:30yp o Ysgol Martin Sant ac yn gorffen yn y Castell.

Ar ôl cyrraedd y Castell bydd gweithgareddau, stondinau a gwledd o adloniant yn rhad ac am ddim yn disgwyl pawb gyda'r uchafbwyntiau i'r plant iau yn cynnwys perfformiadau gan Martyn Geraint, ac Einir a Gareth o Cyw, a bydd cyfle am lun gyda rhai o gymeriadau Cyw a Mistar Urdd. Bydd ail lwyfan yn cynnig adloniant amrywiol i'r aelodau hŷn hefyd.

Mae holl ysgolion y sir wedi cael gwahoddiad i orymdeithio gyda'r cyfle i ennill gwobr ariannol o £500 am greu'r faner orau sydd yn adlewyrchiad lliwgar o'u hysgol a'r ardal.

Yn ystod yr wythnos yn arwain at yr ŵyl gyhoeddi, bydd nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal o fewn yr ardal. I ymuno yn yr hwyl neu am fwy o wybodaeth ewch i **www.urdd.org/eisteddfod**









# Diffyg presenoldeb yn yr ysgol

**Mae gwella presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn flaenoriaeth allweddol, yn lleol ac yn genedlaethol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno diwygiadau pwysig i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol. Mae'r Ddeddf Addysg 1996 yn ei wneud yn drosedd os bydd rhiant yn "methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol."

Mae'r diwygiadau newydd yn cynnwys cynllun hysbysiad cosb. Mae hyn yn golygu o fis Medi, gall Penaethiaid ofyn am gyhoeddiad Hysbysiad Cosb Benodedig (HCB) am bresenoldeb afreolaidd plentyn neu berson ifanc a gofrestrwyd yn eu hysgol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg amgen a drefnir gan y cyngor.



**Dyma rai enghreifftiau o bryd y gall Hysbysiad Cosb Benodedig gael eu cyhoeddi:**

- **Absenoldebau heb ganiatâd -** Lle mae o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) yn cael eu colli i absenoldeb heb ganiatâd; Nid oes angen i'r rhain fod yn olynol. Bydd rhieni/gofalyddion yn derbyn hysbysiad ffurfiol oddi wrth y Pennaeth yn egluro'r camau gweithredu y gellir eu cymryd;
- **Gwyliau yn ystod y tymor -** Gall Hysbysiad Cosb Benodedig cael ei gyhoeddi ar gyfer gwyliau heb ganiatâd ar gyfer 10 sesiwn (pum diwrnod ysgol) neu fwy yn ystod tymor yr ysgol; rhaid i'r dyddiau hyn fod yn olynol.
- **Cyrraedd yn hwyr yn barhaol -** o leiaf 10 sesiwn o gyrraedd i'r ysgol yn hwyr ar ôl i'r gofrestr gau (mae yna dau sesiwn yn ystod diwrnod ysgol, un yn y bore ac un yn y prynhawn);
- **Triwantiaeth -** lle mae plentyn neu berson ifanc yn dod i sylw'r Heddlu yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'u hysgol gofrestredig heb reswm derbyniol.

Yn yr achos lle mae'r ddau riant yn gyfrifol am eu plentyn, gall y ddau riant dderbyn hysbysiad cosb benodedig o £60 y plentyn (i'w dalu o fewn 28 diwrnod).

**Gellir cael gwybodaeth bellach o www.caerffili.gov.uk**

# Dweud eich dweud am wasanaethau dewisol

**Mae'r cyngor wedi cydnabod y rhestr isod o wasanaethau dewisol sy'n ddarostyngedig i'r ymarfer ymgynghori. Mae'n debygol na fydd unrhyw wasanaeth dewisol yn parhau i fod heb ei gyffwrdd.**

## Rydym am i chi gael opiniwn am bob un o'r gwasanaethau ac os ydych yn teimlo ei bod nhw'n:

**Blaenoriaeth Uchel** Y meysydd gwasanaeth hynny rydych yn ystyried fel y rhai mwyaf pwysig ac yn hoffi eu gweld yn cael eu diogelu rhag y toriadau llawn lle bynnag y bo'n bosibl.

**Blaenoriaeth Isel** Y meysydd gwasanaeth lle y byddech yn hoffi gweld rhyw lefel o wasanaeth yn cael ei gynnal, hyd yn oed yn anochel y bydd gostyngiadau yn lefel y gwasanaeth a ddarperir.

**Di-flaenoriaeth** Y gwasanaethau hynny nad ydych yn ystyried i fod yn bwysig a gall cael eu torri'n gyfan gwbl.

**O'r rhestr isod, nodwch y meysydd gwasanaeth yr ydych yn meddwl sy'n flaenoriaeth uchel, yn flaenoriaeth isel neu nid yn flaenoriaeth i chi a'ch cymuned. Dylech hefyd feddwl am yr effaith a chanlyniadau hirdymor ar gyfer pob un o'ch dewisiadau.**

| Gwasanaeth Dewisol — Trowch drosodd i weld y Gwasanaethau Dewisol sydd ar ôl | Cyfanswm y cyllid 2014/15 | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Isel | Ddim yn Flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Siopa Gwasanaethau i oedolion** Darperir i bobl fel rhan o'u pecyn gofal. Prynu nwyddau sylfaenol mewn siopau lleol. | £690,000 | | | |
| **Cynllun Prentisiaeth** Cyflogi pobl ifanc i weithio fel prentisiaid yn y cyngor. | £495,000 | | | |
| **Rhesymoli Asedau** Rheolaeth o adeiladau corfforaethol ac anghorfforaethol. Costau cynnal a rhedeg y ddau brif adeilad corfforaethol Thŷ Penallta a Thŷ Pontllan-fraith a nifer o adeiladau eraill anghorfforaethol. | £5,476,000 | | | |
| **Gwasanaethau Datblygu Busnes** Cynorthwyo busnesau lleol gyda gwybodaeth a grantiau. | £484,000 | | | |
| **Darpariaeth Arlwyo** Darpariaeth Prydau Uniongyrchol (Prydau ar Glud) o brydau bwyd ffres i bobl yn eu cartrefi, Tai Lloches ac Arlwyo Dinesig. | £296,000 | | | |
| **Gwasanaethau TCC** Yn cynnwys camerâu TCC trefi a phentrefi, mannau cymorth cyhoeddus ac uchelseinyddion rhybuddio'r cyhoedd. Hefyd yn delio â galwadau argyfyngau tu allan i oriau gan gynnwys priffyrdd, atgyweirio tai a chynllunio argyfwng. | £515,000 | | | |
| **Safleoedd Amwynder Dinesig** Canolfannau gwastraff lleol ar gyfer deunydd cartref – 6 safle. Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu o leiaf 1 safle. | £666,000 | | | |
| **Glanhau** Yn cynnwys canol trefi, strydoedd preswyl a mannau cyhoeddus arall. | £4,076,000 | | | |
| **Cyfathrebu** Darparu newyddion a gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor, digwyddiadau a chyhoeddiadau, hefyd ymgynghori â'r cyhoedd i helpu i lunio gwasanaethau. | £300,000 | | | |
| **Canolfannau Cymunedol** Yn berthnasol i 39 o ganolfannau cymunedol yn y fwrdeistref sirol. | £597,000 | | | |
| **Addysg Gymunedol** Cyrsiau Addysg i Oedolion, Clybiau a Chymdeithasau. Gwasanaeth Ieuenctid - Canolfannau Ieuenctid a chymwysterau anffurfiol. | £1,847,000 | | | |
| **Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol** Gwasanaeth sy'n taclo mannau poeth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd amgylcheddol e.e. Gwaredu sbwriel, baeddu c_n a graffiti. Ymateb i gwynion trigolion a darparu patrolau sicrwydd ar draws y fwrdeistref sirol. | £355,000 | | | |
| **Grant Treth y Cyngor Pensiynwyr** Cymorth ariannol ychwanegol i bensiynwyr sy'n derbyn ychydig ond nid 100% o ostyngiad Treth y Cyngor. | £246,000 | | | |
| **Parciau Gwledig** Yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus a chynnal a chadw amgylcheddol. | £656,000 | | | |
| **Cwsmer yn Gyntaf** Gwasanaethau rheng flaen trwy Ganolfannau Cwsmer yn Gyntaf, Canolfan Gyswllt, Swyddfeydd Arian, Derbynfeydd a switsfwrdd y Cyngor. | £1,545,000 | | | |
| **Darpariaeth Canolfannau Dydd** Mae gwasanaethau dydd yn cael eu darparu ar gyfer oedolion mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y fwrdeistref i leihau unigedd cymdeithasol a chefnogi gofalwyr anffurfiol. Darperir cludiant hefyd i ac o'r canolfannau dydd mewn llawer o achosion ar gyfer unigolion. | £4,260,000 | | | |
| **Tîm Digwyddiadau a Marchnata** Yn trefnu digwyddiadau mawr fel Y Caws Mawr a digwyddiadau canol tref eraill. Yn ogystal, mae'r tîm yn hyrwyddo'r fwrdeistref sirol fel cyrchfan buddsoddi a thwristiaeth. | £483,000 | | | |
| **Grantiau i'r sector gwirfoddol** Cymorth ariannol i grwpiau a sefydliadau lleol. | £255,000 | | | |
| **Cynnal a Chadw Tir, Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored** Yn cynnwys lawntiau bowlio, sgwariau criced, caeau chwaraeon, ceidwaid parciau a gwasanaethau torri gwair. | £2,502,000 | | | |
| **Gwella Iechyd** Mae'r tîm yn arwain ac yn darparu mentrau gwella iechyd a'r ymateb ymyriadau lleol i Her Iechyd Cymru a Newid Am Oes. Yn cynnwys mynd i'r afael â ysmygu, gordewdra, gweithgaredd corfforol, alcohol, cyffuriau a materion iechyd y meddwl, clefyd y galon, diabetes, canser ac ati. | £150,000 | | | |
| **Cludiant Cartref i'r Ysgol** (Yr elfen ddewisol) Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn fwy na'r lefelau isafswm statudol o 1.5 milltir ar gyfer ysgolion cynradd (2 filltir) a 2 filltir ar gyfer eraill (3 milltir). | £6,496,000 | | | |
| **Eiddo Diwydiannol** Yn cynnwys ystadau diwydiannol mae'r cyngor yn rhedeg - rheolaeth o bortffolio o 200 o unedau diwylliannol a rheoli 3 cynllun swyddfa. Mae'r cyfleusterau hyn yn denu buddsoddiad a swyddi yn ogystal â chynhyrchu incwm ar gyfer yr awdurdod o'r tu allan. | £858,000 income | | | |

| Gwasanaeth Dewisol | Cyfanswm y cyllid 2014/15 | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Isel | Ddim yn Flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Llyfrgelloedd** Darpariaeth y gwasanaeth yn statudol, lefel y ddarpariaeth yn ddewisol. Ar hyn o bryd 18 llyfrgell statig yn ogystal â gwasanaeth i bobl sy'n gaeth i'w tai. Yn darparu mynediad am ddim at ddeunydd darllen ar gyfer pob oedran, gwybodaeth a mynediad am ddim i gyfrifiaduron, WiFi a'r rhyngrwyd. | £2,932,000 | | | |
| **Gwasanaeth Cerddoriaeth** Hyrwyddo cerddoriaeth mewn ysgolion - 30 o staff arbenigol yn cefnogi'r cwricwlwm cerddoriaeth mewn ysgolion drwy ddarparu ystod eang o offerynnau cerddorol a hyfforddiant lleisiol. | £703,000 | | | |
| **Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus** Cefnogaeth ar gyfer y rhwydwaith fysiau trwy'r fwrdeistref sirol - cymhorthdal ar gyfer rhai llwybrau bysiau penodol. | £700,000 | | | |
| **Cyfleusterau Cyhoeddus** Cyfleusterau toiledau yng nghanol trefi a lleoliadau cymunedol allweddol eraill. | £97,000 | | | |
| **Gwasanaeth Patrôl Croesfannau Ysgol** | £360,000 | | | |
| **Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden** Darparu cyfleusterau fel canolfannau hamdden a gweithgareddau i alluogi mwy o drigolion o bob oedran i fyw bywydau iach a gweithgar. | £2,400,000 | | | |
| **Goleuadau Stryd** Gall opsiynau cynilo gynnwys goleuadau am ran o'r nos e.e. diffodd y golau rhwng hanner nos tan 5am mewn ardaloedd preswyl. | £1,570,000 | | | |
| **Lleoliadau a Chyfleusterau Twristiaeth** Yn cynnwys Sefydliad y Glowyr Coed Duon, Llancaiach Fawr, Amgueddfa'r Tŷ Weindio, Canolfan Ymwelwyr Cwmcarn a Croeso Caerffili. Mae'r lleoliadau hyn yn atyniadau cymunedol poblogaidd sydd hefyd yn cynhyrchu incwm i'r awdurdod a hybu'r ardal fel lleoliad twristiaeth. | £1,333,000 | | | |
| **Rheoli Canol Trefi** Hyrwyddo a chefnogi'r 5 prif ganol y dref. | £116,000 | | | |
| **Adnewyddu Trefol** Gwella ein cymunedau a chanol y trefi. | £284,000 | | | |

**O'r rhai rydych wedi nodi fel "blaenoriaeth uchel", nodwch y 3 gwasanaeth sydd fwyaf pwysig i chi a'ch teulu:**

1 ______ 2 ______ 3 ______

**Wrth ddarparu'r gwasanaethau dewisol hyn, sut y gallwn wneud pethau'n wahanol neu beth y gallem roi'r gorau iddynt er mwyn arbed arian?**

**Sut y gallwch chi / y gymuned chwarae rhan wrth helpu ni i ddarparu gwasanaethau dewisol mewn ffordd fwy cost-effeithiol?**

**Os ydych yn teimlo y bydd toriadau yn y gyllideb mewn ardal benodol yn effeithio arnoch chi fel unigolyn (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un o'r canlynol** (eich tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd neu ddiffyg cred, defnydd o'r iaith Gymraeg, IAP (Iaith Arwyddion Prydain) neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion) rhowch y manylion isod.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni sampl cynrychioliadol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi eich hun.

- ☐ **Fel trigolyn y Fwrdeistref Sirol**
- ☐ **Fel cynrychiolydd sefydliad y trydydd sector**
- ☐ **Arall** (Nodwch yma) ______
- ☐ **Fel person busnes**
- ☐ **Fel aelod etholedig**

**Côd Post:** ☐☐☐☐ ☐☐☐

## Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r arolwg hwn.

Dychwelwch eich holiadur wedi'i gwblhau i unrhyw un o brif swyddfeydd y cyngor neu eich llyfrgell, canolfan hamdden, swyddfa arian, swyddfa tai neu ganolfan cwsmer yn gyntaf lleol. Os yw'n well gennych, gallwch hefyd ddychwelyd yr arolwg yn y post i: **Liz Sharma, Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.**

**Mae'r arolwg hefyd ar gael ar-lein i'w gwblhau www.caerffili.gov.uk**

# *Useful* **Numbers** / **Rhifau** *Defnyddiol*

**MAIN SWITCHBOARD**
PRIF SWITSFWRDD
01443 815588

**Minicom** Minicom
01443 873626

**Emergency Number for Council Services:**
Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:
01443 875500
(Out of hours only • Allan o Oriau yn unig)

**Adults' Social Services**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
0808 100 2500

**StreetPride** BalchderStryd
01443 866566

**Children's Social Services**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
0808 100 1727

**Consumer Advice**
Cyngor i Ddefnyddwyr
08454 04 05 06

**Council Tax Enquiries**
Ymholiadau Treth y Cyngor
01443 863002

**Furniture Recycling**
Ailgylchu Dodrefn
01685 846830

**Housing & Council Tax Benefits**
Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor
New Claims: / Hawliau Newydd: 01443 866567
Existing Claimants: / Hawlwyr Presennol: 01443 864099

**Blue Badge** Bathodyn Glas 01443 866571

# Foster Appeal

**The Council needs foster carers to care for children over the age of 10. We offer extensive support, comprehensive training & attractive fees.**

If you have room in your home and time in your life, why not call **0800 587 5664**, text **78866** or visit **www.caerphilly.gov.uk/fostering**. Texts cost the standard network rate.



# Apêl Maethu

**Mae angen gofalyddion maeth ar y cyngor i ofalu am blant dros 10 oed. Rydym yn cynnig cymorth helaeth, hyfforddiant cynhwysfawr a ffioedd deniadol.**

Os oes gennych le yn eich cartref ac amser yn eich bywyd, beth am ffonio **0800 587 5664**, anfon neges destun at **78866** neu ewch i **www.caerffili.gov.uk/maethu**. Mae negeseuon testun yn costio'r gyfradd rhwydwaith safonol.

# Director's Report published

**The council has recently published its annual Directors Report on the Effectiveness of Social Care Services in the county borough.**

The purpose of the report is to outline how well services have been delivered over the past year, and what the focus and main priorities will be for the coming year. Cllr Robin Woodyatt said, "We are continuously demonstrating our commitment to delivering effective social care services, but we will not be complacent and will continue to adapt, build and change our services as the demands of the service change."

**For further information, please call 01443 864 679. A full copy of the Directors Annual Report can be found at www.caerphilly.gov.uk/socialservicesacrf**

# Cyhoeddiad Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Mae'r cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwyr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn y fwrdeistref sirol yn ddiweddar.**

Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu pa mor dda y mae gwasanaethau wedi cael eu darparu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth fydd y ffocws a phrif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dywedodd y Cynghorydd Robin Woodyatt, "Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol, ond ni fyddwn yn hunanfodlon a byddwn yn parhau i addasu, adeiladu a newid ein gwasanaethau fel y mae gofynion y gwasanaeth yn newid."

**Am wybodaeth bellach, ffoniwch 01443 864 679. Mae copi llawn o Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar gael o www.caerphilly.gov.uk/socialservicesacrf**

# What's ON / Digwyddiadau

## www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk**

### First World War Heritage Day - #CaerphillyWW1 Free
### Diwrnod Treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf - #CaerffiliRhB1 Am Ddim

**27/09 – 11am-4pm**

*Winding House • Tŷ Weindio*

*Drop-in day with Gwent Archives, Glamorgan Archives, Caerphilly Libraries and the Winding House - find out more about the First World War in the local area through exhibitions, displays, research tips and more. Visit **www.windinghouse.co.uk** or call for information.*

*Diwrnod galw i mewn gydag Archifau Gwent, Archifau Morgannwg, Llyfrgelloedd Caerffili a'r Tŷ Weindio - darganfyddwch mwy am y Rhyfel Byd Cyntaf yn yr ardal leol drwy arddangosiadau, arddangosfeydd, awgrymiadau ymchwilio a mwy. Ewch i **www.tyweindio.co.uk** neu ffoniwch am wybodaeth.*

01443 822 666

### Bargoed Open Air Cinema – Rio 2 Free
### Sinema Awyr Agored Bargod – Rio 2 Am Ddim


**03/10 – 7pm**

*Emporium Car Park • Maes Parcio'r Emporiwm*

*It's a jungle out there for Blu, Jewel and their three kids in Rio 2, after they're hurtled from that magical city to the wilds of the Amazon in this hilarious comedy sequel.*

*Jyngl ydyw i Blu, Jewel a'u tri phlentyn yn Rio 2, ar ôl iddynt gael eu tynnu o'r ddinas hudol honno i wylltion yr Amason yn y dilyniant comedi doniol hwn.*

029 20 88 00 11




### 'Easy Terms'
### A comedy play by Frank Vickery
### Drama gomedi gan Frank Vickery

**20-22/10 – 7.30pm**

*Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon*

*A year ago Vi suffered a stroke and her only son Howard gave up college to nurse her. She's now capable of looking after herself but finds it hard to let go. Howard has a big secret and a caravan holiday in Tenby does nothing to relieve the tension… it only serves to open up the situation for some heart-breaking comedy. Call or visit **www.blackwoodminersinstitute.com** for tickets.*

***Tickets £13 adult / £12 concession***

*Blwyddyn yn ôl fe ddioddefodd Vi strôc ac fe adawodd ei unig fab coleg i ofalu amdani. Nawr mae ganddi'r gallu i edrych ar ôl ei hun ond mae hi'n ei weld yn anodd gollwng gafael ar yr holl beth. Mae gan Howard cyfrinach fawr ac nid yw gwyliau mewn carafán yn Ninbych-y-pysgod yn helpu'r tensiwn...yr unig beth i'w wneud yw agor y sefyllfa ar gyfer comedi torcalonnus. Ffoniwch neu ewch i **www.blackwoodminersinstitute.com** am docynnau.*

***Tocynnau £13 oedolyn / £12 consesiwn***

01495 227 206

### Witch's Broomsticks

**26/10 – 11.00am**

*Parc Cwm Darran • Parc Cwm Darran*

*Get into the Halloween spirit by having a go at making a real witch's broomstick for Halloween. Booking essential, costs £3 per broomstick.*

*Ymunwch yn ysbryd Nos Galan Gaeaf drwy roi cynnig ar greu ysgubell gwrach go iawn ar gyfer yr Ŵyl. Mae archebu lle'n hanfodol, cost £3 am bob ysgubell.*

01443 875 557

### Activi-Time: Half Term Horrible History!
### Amser Gweithgaredd: Hanes Hyll Hanner Tymor!

**28-31/10 – 11am-12pm**

*The Winding House • Tŷ Weindio*

*Fun family crafts based on different periods of history - with a bit of creepy spookiness thrown in! Booking essential - **£1.50 per child***

*Crefftau hwyl i'r teulu wedi seilio ar gyfnodau hanesyddol gwahanol - gydag ychydig themau arswydus!*

*Mae archebu lle'n hanfodol - **£1.50 y plentyn**.*

01443 822 666



### Autumn Photography Walk
### Taith Gerdded Ffotograffiaeth yr Hydref

**01/11 – 10am**

*Starting at Cwmfelinfach village car park • Dechrau ym maes parcio pentref Cwmfelin-fach*

*Join expert photographer Tim Collier for a gentle three mile walk around Mynyddislwyn and learn how to take some fantastic photos. Booking essential. **£5 per person***

*Ymunwch â'r ffotograffydd arbenigol Tim Collier am daith gerdded hamddenol o dair milltir o amgylch Mynyddislwyn a dysgwch sut i gymryd rhai lluniau gwych. Mae archebu lle'n hanfodol. **£5 y person.***

01443 875 557



### Traditional Wreath Making
### Creu Blodeudorch Traddodiadol


**15/11 10am-12pm + 2-4pm**

*Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr*

*Learn how to make a traditional Christmas wreath from scratch using local foliage. All materials will be provided as well as tea, coffee and mince pies. Booking essential.*
***£5 per person***

*Dysgwch sut i wneud blodeudorch Nadolig traddodiadol o'r dechrau drwy ddefnyddio dail lleol. Fe ddarperir yr holl ddeunyddiau yn ogystal â the, coffi a mins-peis. Mae archebu lle'n hanfodol. **£5 y person***

01443 412 248



### Stargazing @ Cwmcarn
### Syllu ar y Sêr yng Nghwmcarn

**29/11 – 7pm**

*Cwmcarn Forest • Coedwig Cwmcarn*

*Join the team at Cwmcarn for a magical evening spent looking at the stars in the skies above the forest! Hot drinks and food will be provided. Booking essential.*
***Tickets £7.50 per adult and £4 per child (7+)***

*Ymunwch â'r tîm yng Nghwmcarn am noson hudol yn edrych ar y sêr yn disgleirio uwchben y goedwig! Fe ddarperir diodydd poeth a bwyd. Mae archebu lle'n hanfodol.*
***Tocynnau £7.50 i oedolion a £4 i blant (7+)***

01495 272 001

fforest cwmcarn forest

**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk**


# New rate relief schemes • Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi newydd

**Caerphilly County Borough Council is urging eligible local businesses to claim savings in business rate relief.**

Introduced by Welsh Government, the Wales Retail Relief Business Rate Scheme aims to give qualifying ratepayers assistance on a business rates bill for the financial year 2014/15. The grant assistance applies to qualifying occupied retail premises with a rateable value of £50,000 or less, that are wholly or mainly providing a service to visiting members of the public. Officers from Caerphilly County Borough Council have already posted application forms to qualifying establishments encouraging them to take advantage of the financial support on offer.

Welsh Government is also making funding available to local authorities to deliver a Local Needs Business Rate Relief Scheme. The scheme adopted by the council aims to provide rate relief for the financial year 2014/15 to those businesses occupying premises with a rateable value of £50,000 or less that are identified in the 'rating list' for the council's area as being an industrial property type (e.g. factory, workshop) and the property is used for manufacturing or industrial warehousing. Application forms will be issued during August and September 2014 directly to businesses who appear to be eligible.

**For more information please visit www.caerphilly.gov.uk or contact 01443 863006**



**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn annog busnesau lleol cymwys i hawlio arbedion mewn rhyddhad ardrethi busnes.**

Wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Manwerthu Cymru yn anelu at roi cymorth i drethdalwr cymwys ar fil cyfraddau busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15. Mae'r cymorth grant yn gymwys i adeiladau manwerthu sydd dan feddiant gyda gwerth ardrethol o £50,000 neu lai, sydd yn darparu gwasanaeth llawn neu'n bennaf i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwelwyr. Mae Swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi postio ffurflenni cais yn barod at sefydliadau cymwys drwy eu hannog i gymryd mantais o'r cymorth ariannol sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cyllid ar gael i awdurdodau lleol i ddarparu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Anghenion Lleol. Mae'r cynllun sydd wedi ei fabwysiadau gan y cyngor yn bwriadu darparu rhyddhad ardrethi am y flwyddyn ariannol 2014/15 i'r busnesau hynny sy'n meddu ar adeiladau gyda chyfradd ardrethol gwerth £50,000 neu lai sy'n cael eu hadnabod yn y 'rhestr gyfradd' ar gyfer ardal y cyngor sydd yn fath o eiddo diwydiannol (e.e. ffatri, gweithdai) ac mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu neu ystordy diwydiannol. Bydd ffurflenni cais yn cael eu cyhoeddi yn ystod mis Awst a mis Medi 2014 yn uniongyrchol at fusnesau sydd yn gymwys.

**Am ragor o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863006**

# PROTECTING YOU

**The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit.**

One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

**Below are examples of recent prosecutions:**

# EICH DIOGELU CHI

**Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld.**

Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y cyngor.

**Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:**

### Trading Standards prosecutions
### Erlyniadau Safonau Masnach

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Oliver Johnson of Newbridge. | *11 July 2013 at Newport Magistrates Court. Sale of alcohol to two persons under the age of 18.* | £150 fine, £717.56 costs to the Local Authority and £20 victim surcharge.Licensing Act 2003. |
| Lisa Davies of Churchill Park, Caerphilly. | *20 June 2014 at Newport Magistrates Court. Possession for supply of counterfeit clothing and electrical goods.* | 4 months imprisonment suspended for 12 months, Community Order - 60 hours unpaid work, £400 costs to the Local Authority, £80 victim surcharge and forfeiture of counterfeit goods. Trade Marks Act 1994. |
| Carl John Kilby of Oakdale. | *20 June 2014 at Newport Magistrates Court. Possession for supply and the sale of counterfeit tobacco products. Possession for supply and the sale of tobacco products which did not comply with relevant Safety Regulations.* | 4 months imprisonment suspended for 12 months. Community Order - 100 hours unpaid work. £320 costs to the Local Authority, £80 victim surcharge and forfeiture of counterfeit tobacco products. Trade Marks Act 1194 and The Tobacco Products (Manufacture, Presentation and Sale) (Safety) Regulations 2002. |

### Environmental health prosecutions
### Erlyniadau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Louise Dennison. Millbrook Road, Pontllanfraith. | *Failing to remove dog's faeces on Springfield Park, Pontllanfraith on the 7 February 2014. The case was held at Newport Magistrates Court on 18 July 2014.* | Found guilty in her absence and was fined £200, ordered to pay costs of £120 and a victim surcharge of £20. Dog Fouling of Land Act 1996. |
| Tim Davies of Sunnybank Road, Blackwood. | *Appeared at Newport Magistrates' Court on Monday 7 July charged with breach of duty of care allowing waste under his control to be deposited on land, namely Tonypistyll Road, Pentwynmawr in February 2013.* | Pleaded guilty. He was issued with £400 fine, £338.47 costs, £40 Victim surcharge. Environmental Protection Act 1990. |
| Shamin Akhtar Khan of Aberdare. | *The defendant did not attend Newport Magistrates Court on 20th June 2014. Breaching the Housing Act 2004 sections 20, 21 and 235.* | The case was proven in his absence. He was found guilty of two offences and ordered to pay a £1,000 fine for each of the offences. Also ordered to pay £220 costs and a £100 victim surcharge. Housing Act 2004. |

**To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

**Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau**
Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid ailddefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.